

Plant milwyr – canllawiau ariannu i ysgolion yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae ysgolion ledled Cymru'n rhagweithiol iawn ac yn gwneud gwaith gwyb i sicrhau bod Plant Milwyr yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu gwneud y gorau o'u profiad o fod yn rhan o deulu Lluoedd Arfog a pheidio â bod dan anfantais. Gweler gwefan SSCE Cymru am astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da <https://sscecymru.co.uk/case-studies>

Er mwyn cydnabod yr ystyriaethau arbennig i blant o deuluoedd lle mae un rhiant neu'n fwy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ac er mwyn cefnogi eu hysgolion, mae amryw gyfleoedd am gyllid ar gael. Weithiau, mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol droi at yr arian ychwanegol hwn er mwyn parhau i gefnogi plant Milwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol. Cydnabuodd SSCE Cymru nad yw hi bob amser yn hawdd nodi pa gronfeydd sydd ar gael, pa grantiau sydd fwyaf perthnasol i'w prosiect a'r ffordd orau o fynd ati i lenwi'r ffurflenni cais.

Gweithiodd grŵp o randdeiliaid SSCE Cymru ar y cyd i lunio'r ddogfen hon er mwyn rhoi arweiniad i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar y llifoedd grantiau sydd ar gael, ynghyd â chynghor ar lenwi'r ffurflenni cais. Daw'r cynghor hwn gan aelodau'r paneli ariannu, yn ogystal ag ysgolion ac Awdurdodau lleol sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am y grantiau.

Cyn ymgeisio am gyllid grant, cynghorir ysgolion/Awdurdodau lleol yng Nghymru i dreulio rhywfaint o amser yn ymgysylltu ag adnoddau SSCE Cymru, sydd ar gael yn www.sscecymru.co.uk ac/neu cysylltu â ssce@wlg.gov.uk i drafod eu prosiect/cynnig.

Mae'n bwysig hefyd i wirio cymhwyster trwy ddarllen y dogfennau arweiniad llawn am grant, er mwyn sicrhau nad yw amser yn cael ei wastraffu'n cyflwyno cais nad yw'n briodol ar gyfer y llif ariannu penodol hwnnw.

Cynnwys

Cliciwch ar ran o'r dudalen gynnwys i fynd â chi i'r lle perthnasol yn y ddogfen hon.

Plant milwyr – canllawiau ariannu i ysgolion yng Nghymru	1
Cyflwyniad.....	1
Y Weinyddiaeth Amddiffyn – Y Gronfa Cefnogi Addysg	4
£2m ar gael i ysgolion ledled y DU i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i oresgyn yr heriau maent yn eu hwynebu yn sgil symudedd ac/ neu ymfyddiniad sylweddol.	
Pwrpas y gronfa	4
Pwy sy'n gymwys	4

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Dolen gyswllt.....	4
Cyngor (yn ôl adran).....	5
Enghreifftiau o lwyddiant blaenorol yng Nghymru.....	8
Llinell amser	8
Manylion cyswllt	9
Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg – Cronfa Cymru	10
£250,000 i gefnogi ysgolion yng Nghymru i ddeall anghenion plant Milwyr a rhoi'r sgiliau iddynt i ymdopi â heriau'r ffordd o fyw filwrol, drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.	
.....	10
Pwrpas y gronfa	10
Pwy sy'n gymwys	10
Dolen Gyswllt	11
Cyngor (yn ôl adran).....	11
Enghreifftiau o lwyddiant blaenorol	13
Llinell amser	14
Manylion cyswllt	15
Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog – Grantiau Lleol	16
Mae grantiau o hyd at £20,000 ar gael i gefnogi prosiectau ledled y DU sydd naill ai'n helpu integreiddio cymunedau'r Lluoedd Arfog a rhai sifilaidd ar draws y DU, ac/ neu ddarparu gwasanaethau lleol gwerthfawr i Gymuned y Lluoedd Arfog.	
Pwrpas y gronfa	16
Pwy sy'n gymwys	16
Dolenni.....	16
Cyngor (yn ôl adran).....	16
Enghreifftiau o lwyddiant blaenorol yng Nghymru.....	18
Llinell amser	19
Manylion cyswllt	19
Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog	20
Mae grantiau Torfol a Chydweithredol ar gael i helpu lleddfu'r anawsterau sy'n digwydd o bryd i'w gilydd gydag addysg plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yn sgil gwasanaeth eu rhieni.	
Pwrpas y gronfa	20
Pwy sy'n gymwys	20
Dolen gyswllt.....	21
Cyngor ar grantiau ar y Cyd (yn ôl adran)	21

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Enghreifftiau o lwyddiant blaenorol	23
Llinell amser	24
Manylion cyswllt	24
Llifoedd ariannu eraill	25
Grants4Schools	25
Mynediad i Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru.....	25
Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cynllun Lles Plant.....	25
Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog – Tynnu Rhwystrau Teuluol	25
Ymddiriedolaeth Cronfa Les Swyddogion Llynges (RNBT)	26
Cronfa Les Llu Awyr Brenhinol (RAFBF)	26
Cronfa Les y Fyddin (ABF) Elusen y Milwyr	27

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn – Y Gronfa Cefnogi Addysg

Pwrpas y gronfa

Mae'r Gronfa ar gael i ysgolion ac Awdurdodau Lleol sy'n gallu dangos tystiolaeth glir o sut mae **symudedd eithriadol ac/neu leoli** yn effeithio naill ai ar ysgolion ac/neu eu disgyblion.

Nod y Gronfa:

- Rhoi cefnogaeth i ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan **symudedd** eithriadol (gan gynnwys gweithgarwch lleoli/ail-leoli) ac/neu **leoliadau** (rhieni i ffwrdd ar deithiau gwaith, ymarferion hir, cyrsiau hyfforddiant ac ati);
- Bodloni anghenion staffio a hyfforddi yn sgil cwmpadau/codiadau annisgwyl yn niferoedd y disgyblion o deuluoedd Milwyr;
- Rhoi cefnogaeth gymunedol i helpu meithrin perthnasoedd rhwng ysgolion, Awdurdodau Lleol a theuluoedd Milwyr;
- Darparu adnoddau addysgol sy'n gysylltiedig â nifer y disgyblion o deuluoedd Milwyr;
- Darparu cyllid i adnewyddu ardaloedd presennol yn yr ysgol (dim gwaith cyfalaf).

Anogir 'ceisiadau clwstwr' yn gryf.

2020 yw rownd derfynol y gronfa, gyda £2m ar gael ar draws y DU. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd £6m ar gael i ysgolion ac Awdurdodau Lleol wneud cais amdano. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn dangos tystiolaeth glir o **symudedd ac/neu leoli** arwyddocaol. Golyga hyn fod angen i ysgolion ddangos er enghraifft, sut mae cynnydd sydyn yn niferoedd y disgyblion sy'n blant Milwyr wedi creu baich sylweddol o ran adnoddau - diffyg cyllid, prinder staff ac ati, ac mae bellach wedi rhoi pwysau ar yr ysgol ac ar yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o deuluoedd Milwyr.

Pwy sy'n gymwys

Pob ysgol a gynhelir, colegau chweched dosbarth ac Awdurdodau Lleol (ar ran ysgolion a gynhelir) yn y **DU** sydd â phlant Milwyr ar y gofrestr.

RHAID i ysgolion fod yn destun **symudedd** eithriadol gan blant Milwyr ac/neu fod â phlant Milwyr yn yr ysgol sydd â rhieni sy'n destun **lleoliadau** a rhaid i'r cais gynnwys tystiolaeth glir o beth yw'r effaith.

Diffiniadau:

- **Symudedd** – y teulu cyfan yn symud o un lleoliad i'r llall gan arwain at newid ysgol i'r plentyn.
- **Lleoli** – Lle mae'r Milwr i ffwrdd o'r cartref, naill ai ar ymgyrch (heb fod yn unigryw i ardaloedd o wrthdaro) neu ymarfer hyfforddi tymor hir.

Dolen gyswllt

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

<https://www.gov.uk/government/publications/mod-support-fund-for-schools-with-service-children-grant-application-pack>

Cyngor (yn ôl adran)

Cyffredinol

- Darllenwch y ddogfen **Canllawiau'r Gronfa Cefnogi Addysg (ESF guidance)** yn llawn **cyn** ac **ar ôl** ysgrifennu'ch cais i sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar gynnwys perthnasol
- **Defnyddiwch y meini prawf sgorio** i arwain pa gynnwys i'w rhoi yn eich cais
- Bydd **cynaliadwyedd/creu etifedd a chyflawni gwerth am arian** yn ganolbwyntiau allweddol i'r paneli wrth sgorio'r ceisiadau
- Trafodwch effeithiau **uniongyrchol ac anuniongyrchol** cadarnhaol
- Gall ceisiadau i'r Gronfa fod ar gyfer ystod o brosiectau, cynlluniau a mentrau a rhaid iddynt gyfleu:
 - Sut eir i'r afael ag effeithiau **symudedd a lleoli**
 - Ymgysylltu â chymunedau Milwyr a sifilaidd
 - Canlyniadau bwriadedig
 - Gwerth am arian
 - Cynaliadwyedd.
- **Ewch at ysgolion eraill** i drafod cynlluniau ar gyfer eich cais – er mwyn chwilio am gyngor ac archwilio cyfleoedd am gynigion clwstwr ac enghreifftiau o arfer da
- Cofiwch y dylai cyllid am blant Milwyr fod **yn ogystal â'r hyn y mae eu cyfoedion sifilaidd yn elwa arno** ac nid yn ei le. Osgowch gyflwyno cais i ariannu gwaith y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn ei ddarparu.

ADRAN 1 – MANYLION YR YMGEISYDD

Manylion a gwybodaeth cysylltu ysgolion/awdurdodau lleol

- Mae gan ymgeiswyr hawl i wneud **un cais unigol yr un** a gellir eu cynnwys hefyd mewn **cais clwstwr ar y cyd** gydag ysgolion eraill; ar yr amod ei fod ar gyfer menter wahanol. Os yn cyflwyno cais clwstwr – dylid cynnwys **pob** ysgol sydd ynghlwm fan hyn.

Data Ysgolion a phlant Milwyr

- Dyma gyfle pwysig i ddangos sut mae **niferoedd y plant Milwyr yn amrywio** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol – gan ddangos symudedd
- Dyma gyfle hefyd i ddangos **canran y plant Milwyr** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol.

Llwyddiant ariannu blaenorol

- Mae'n bwysig bod y wybodaeth hon yn **dryloyw ac yn gywir** – mae'n rhoi i'r panel ariannu'r manylder sy'n eu helpu i lunio barn ddeallus am anghenion a phrofiad eich ysgol/Awdurdod Lleol.

ADRAN 2 – MANYLION Y CAIS

Crynodeb o'r cais

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- Dyma **ran bwysicaf** y cais – gydag oddeutu 100 o eiriau yn unig
- Cofiwch mai **crynodeb gweithredol** ydyw – canolbwyntiwch ar y canlyniadau allweddol.

Gwybodaeth ariannol

- Dyma gyfle da i ddarparu **crynodeb** clir **o'r costau** a fydd yn helpu'r panel i ddeall yn glir beth sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig.
- Gwahanwch elfennau'r cais a chostiwch nhw'n unigol i alluogi'r paneli i allu ystyried a dynodi **taliadau rhannol** yn hawdd.

Noddwr y Lluoedd Arfog

- Dylai hwn/hon fod yn aelod o'r **Gymuned Lluoedd Arfog** y mae eich ysgol/Awdurdod lleol mewn cysylltiad amlaf ag ef/hi
- Gall ddarparu **cyd-destun ar y gymuned o Filwyr** yn eich lleoliad, gan gynnwys y math o unedau, hyfforddiant a lleoliadau disgwylidig, effeithiau ail-leoli a dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan deuluoedd Milwyr
- Os nad oes gennych unrhyw gyswllt â'ch cymuned Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, argymhellir eich bod yn cysylltu â'ch Arweinydd Ymgysylltu â'r Gymuned Lluoedd Arfog ar gyfer eich ardal awdurdod lleol (gweler [Atodiad 1](#)) neu'r [Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog](#) i drafod y cais
- Ewch ati i feithrin **perthynas weithio agos** gyda'ch Noddwr Lluoedd Arfog er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llawn yn yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn ceisio'i gyflawni. Mae eu cefnogaeth ar hyd eich gwaith gyda phlant Milwyr yn amhrisiadwy.

Effeithiau symudedd a lleoli a thystiolaeth o angen am y cyllid hwn

Bydd eich cais yn gryfach os gallwch **roi dystiolaeth** o rai neu bob un o'r canlynol:

- I gael manylion o'r heriau y gallai plant Milwyr eu hwynebu, gweler www.sseccymru.co.uk
- Eich bod yn ymwybodol o'r **heriau** posibl y mae **plant Milwyr yn eu hwynebu** yn eich ysgol/Awdurdod lleol, ynghyd â sut i'w cefnogi - cofiwch fod pob plentyn Milwyr yn unigryw a'u profiadau'n wahanol
- Dangos **dealltwriaeth gref** o'r heriau a wynebir gan blant Milwyr mewn addysg, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effaith **symudedd a lleoli** – gan ddarparu **enghreifftiau** penodol lle bo'n briodol
- **Osgoi tybiaethau** am anghenion plant Milwyr – canolbwyntiwch ar eich profiad o'r plant a'r teuluoedd a gefnogwch
- Cofiwch gynnwys **tystiolaeth** gref o effaith symudedd yn yr ysgol/Awdurdod lleol - fel nifer y plant Milwyr sy'n ymuno neu'n gadael yng nghanol y flwyddyn a rhowch enghreifftiau o pryd/sut mae hyn wedi cael effaith negyddol ar blentyn Milwr
- Cofiwch gynnwys **enghreifftiau** o pryd cafodd blant Gwasanaeth anawsterau oherwydd lleoliad eu rhiant/rhieni
- Tynnwch oddi ar **brofiad/enghreifftiau o arfer llwyddiannus** yn eich ysgol(ion) ac ysgolion mewn ardaloedd eraill
- Esbonio sut ydych wedi **cael safbwyntiau'ch** plant a theuluoedd Milwyr.

Gweithio mewn partneriaeth

- **Anogir yn gryf** geisiadau ar y cyd gan grwpiau o ysgolion - cyfeirir atynt fel '**Ceisiadau clwstwr**'
- Mae ceisiadau clwstwr yn dangos ac yn cefnogi **arfer da, gwybodaeth ar y cyd a gwerth am arian**

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- **Rhowch fanylion unrhyw gydweithredu** gydag ysgolion eraill yn eich ardal gyda'r nod o gefnogi plant milwyr eich ysgol
- Rhestrwch unrhyw **sefydliadau** y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol eisoes yn gweithio gyda nhw, neu'n bwriadu gweithio gyda nhw, er mwyn deall anghenion plant Milwyr a dynodi'r ffordd orau o'u cefnogi. Gallai'r sefydliadau gynnwys;
 - Gwasanaeth Iles y Lluoedd Arfog Lleol
 - Elusennau'r Lluoedd Arfog (Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges, Ffederasiwn Teuluoedd yr RAF, Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin, SSAFA, y Lleng Brydeinig Frenhinol)
 - Fforwm Lluoedd Arfog yr Awdurdod Lleol
 - Cymdeithasau rhieni'r Weinyddiaeth Amddiffyn
 - Darparwyr addysg
 - SSCE Cymru.

Mesur llwyddiant

- **Cynlluniwch eich gwaith monitro** yn y lle cyntaf, yna adeiladwch eich gweithgaredd o hwn
- Canolbwyntiwch ar **angen** penodol **wedi'i dystio** y gellir ei fesur
- Defnyddiwch gymysgedd o fesurau ond sicrhewch fod mesurau **meintiol** yn cael eu cynnwys
- Cofiwch gynnwys **targedau** Cyraeddadwy, Amser wedi'i Bennu, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol (**CAMPUS**) sy'n gysylltiedig â chynnal neu brif-ffrydio'r gweithgaredd
- Cofiwch, rydych chi'n rhan o brosiect mwy o faint sy'n ceisio **deall yn well anghenion plant Milwyr** a beth sy'n gweithio i'w cefnogi – felly mae monitro'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n eich dilyn chi
- Gallai **enghreifftiau o lwyddiant** gynnwys;
 - Gwell canlyniadau academiaidd
 - Ymgysylltiad y disgyblion
 - Y nifer sy'n derbyn sesiynau tiwtora
 - Canlyniadau Iles
 - Adborth cadarnhaol gan lysgenhadon y disgyblion a chymuned y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gallai **enghreifftiau o sut i fesur** effaith y prosiect gynnwys;
 - Monitro dangosyddion perfformiad academiaidd allweddol yn erbyn disgwyliadau Awdurdodau Lleol a Chymru (e.e. llythrennedd, rhifedd, presenoldeb, diwedd cyfnod allweddol)
 - Monitro cofnodion ymddygiad
 - Cymharu graddau targed/ canlyniadau lefelau
 - Arolygon plant milwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect.

ADRAN 3 - CYNALIADWYEDD

- Esboniwch beth fydd **etifeddiaeth** y prosiect yn ei adael
- Sicrhewch fod **cynllun cynaliadwyedd realistig** yn cael ei ddisgrifio yn y cais – gan gynnwys ffynonellau cyllid parhaus (lle bo angen), adnoddau a chynllunio dilyniant
- Nodwch ffyrdd o **ymgorffori arfer** yn yr ysgol a'r Awdurdod Lleol
- Cofiwch gynnwys esboniad o sut gallai **uwchsgilio staff** esgor ar fantais tymor hir
- Rhowch fanylion unrhyw **lifoedd ariannu eraill** y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol wedi gwneud cais amdanynt, er mwyn parhau â'r gwaith.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Engbreiffiau o lwyddiant blaenorol yng Nghymru

Ysgol gynradd ar Ynys Môn gyda 38 o blant Milwyr

- Cwrs Hyfforddiant ELSA a phhecyn i ddechreuwr
- Hyfforddiant Talk About / Deunyddiau Hyfforddiant i'r staff i gyd
- Deunyddiau Talk About
- Arf ar-lein Proffil Boxall (boxallprofile.org) Tueddiadau ymddygiad prawf.

Effaith:

Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy sy'n cefnogi 56 o ysgolion

- Swyddog Cefnogi Addysg HMF – cyflog ac argostau
- Cyhoeddusrwydd, deunyddiau hyfforddiant/hyrwyddo a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i deuluoedd ac ysgolion
- Prynwyd arbenigedd i ddarparu cymorth lles e.e. cyngori / cymorth seicoleg addysg i unigolion lle bo angen.

Effaith:

Ysgol gyfun yn Sir Benfro gyda phedwar o blant Milwyr

- Swyddog Llythrennedd Corfforol rhan-amser
- Costau hyfforddi.

Effaith:

Ysgol uwchradd ym Mhowys gyda 36 o blant Milwyr

- Cyflogi Swyddog Cymorth i Deuluoedd y Lluoedd
- Cwrs hyfforddiant – cyrsiau iechyd meddwl a lles
- Clwb cinio a choginio gyda Gwasanaeth Lles y Fyddin
- Adnoddau – llyfrau astudio
- MPCT

Effaith:

Ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf gydag un plentyn Milwr

- Cynorthwyr Cymorth Dysgu.

Effaith:

Llinell amser

Ar gyfer rownd ariannu 2019/20:

- **1200 o'r gloch ar 30 Medi 2019** – dyddiad cau i ymgeisio
- Hydref 2019 – panel rhanbarthol yn ymgynnull
- Tachwedd 2019 – panel y DU yn ymgynnull

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- Ionawr 2020 – bydd ymgeiswyr yn cael gwybod canlyniad eu cais
- Erbyn 5 Ebrill 2020 – bydd taliadau'n cael eu gwneud
- Ebrill 2021 – dylai'r cyllid fod wedi'i wario
- Ebrill 2021 – bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gofyn i gwblhau archwiliad.

Manylion cyswllt

Dylid anfon **ymholiadau** ac/neu **ffurflenni cais wedi'u llenwi** at DCYP-MOD-ESF-Mailbox@mod.gov.uk.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg – Cronfa Cymru

Pwrpas y gronfa

Cronfa Llywodraeth Cymru o **£250,000** ar gyfer **blwyddyn academiaidd 2019/20**. Fe'i rheolir a'i gweinyddir gan brosiect Cefnogi Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE) yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Chwilio am geisiadau a fydd yn paratoi plant Milwyr gyda'r sgiliau i ymdopi â'r **heriau'n ymwneud â ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog** yn awr a thrwy gydol eu haddysg. Bydd croeso arbennig i geisiadau sy'n dangos **effaith tymor hir** a **chfynewid gwybodaeth** rhwng staff ysgolion a grwpiau o ysgolion. Anogir ysgolion i gyflwyno **ceisiadau clwstwr**, er mwyn galluogi ar gyfer rhannu adnoddau a sgiliau ar draws ysgolion lleol.

Mae angen i'r cais:

- Ddangos beth mae'r prosiect yn **bwriadu** ei wneud
- Dangos sut mae'n helpu **goresgyn her** ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog
- Bod yn seiliedig ar **dystiolaeth**.
- Dangos **gwerth am arian**
- Profi **ymgysylltiad** gyda chymuned y Lluoedd Arfog
- Dynodi unrhyw **fuddiannau tymor hir**.

Pwy sy'n gymwys

Ysgolion yng **Nghymru** sydd ag un plentyn Milwr o leiaf.

Diffiniad o blentyn Milwr, at ddiben y gronfa hon yw:

- Plentyn y mae un neu ddau riant wrthi'n gwasanaethu yn y Lluoedd arfog
- Plentyn y mae ei riant/rieni wrthi'n gwasanaethu fel milwyr wrth gefn, **neu**
- Plentyn y mae ei riant/rieni wedi gadael y Lluoedd Arfog yn ystod y 18 mis diwethaf.

Gellir derbyn ceisiadau gan:

- Ysgolion a Gynhelir
- Colegau 6ed dosbarth
- Grwpiau o unrhyw ysgolion – anogir 'ceisiadau clwstwr' yn gryf.
- Awdurdodau lleol ar ran ysgolion a ariennir yn gyhoeddus yn eu hardal.

Os yn gwneud cais fel clwstwr, gall ysgol unigol hefyd gyflwyno'i chais ar wahân ei hun, ar yr amod ei fod ar gyfer menter wahanol (ni chaniateir ymgeisio dwbl ar un prosiect).

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu **tystiolaeth** fod ysgolion yn wynebu heriau penodol oherwydd effaith ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog ar blant Milwyr.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Dolen Gyswilt

<https://www.sscecymru.co.uk/supporting-service-children-in-wales-fund>

Cyngor (yn ôl adran)

Cyffredinol

- Darllenwch y ddogfen **Cyfarwyddiadau a chanllawiau Cefnogi Plant Milwyr mewn Ysgolion – Cronfa Cymru** yn llawn **cyn** ac **ar ôl** ysgrifennu'ch cais i sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar gynnwys perthnasol
- Bydd **cynaliadwyedd/creu etifedd a chyflawni gwerth am arian** yn ganolbwyntiau allweddol i'r paneli wrth sgorio'r ceisiadau
- Trafodwch effeithiau **uniongyrchol ac anuniongyrchol** cadarnhaol
- **Ewch at ysgolion eraill** i drafod cynlluniau ar gyfer eich cais – er mwyn chwilio am gyngor ac archwilio cyfleoedd am gynigion clwstwr ac enghreifftiau o arfer da
- Ystyriwch **wneud cais am** ESF ac SSCEWF – nodwch hyn yn y cais
- Cofiwch y dylai cyllid am blant Milwyr fod **yn ogystal â'r hyn y mae eu cyfoedion sifilaidd yn elwa arnynt** ac nid yn ei le. Osgowch gyflwyno cais i ariannu gwaith y dylai'r awdurdod lleol fod yn ei ddarparu.

ADRAN 1 – GWEINYDDU

Manylion a gwybodaeth cysylltu ysgolion/awdurdodau lleol

- Mae gan ymgeiswyr hawl i wneud **un cais unigol yr un** a gellir eu cynnwys hefyd mewn **cais clwstwr ar y cyd** gydag ysgolion eraill; ar yr amod ei fod ar gyfer menter wahanol. Os yn cyflwyno cais clwstwr – dylid cynnwys **pob** ysgol sydd ynghlwm fan hyn.

Data Ysgolion a phlant Milwyr

- Dyma gyfle pwysig i ddangos sut mae **niferoedd y plant Milwyr** yn newid yn eich ysgol/Awdurdod Lleol – gan ddangos symudedd
- Dyma gyfle hefyd i ddangos **canran y plant Milwyr** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol.

Llwyddiant ariannu blaenorol

- Mae'n bwysig bod y wybodaeth hon yn **dryloyw ac yn gywir** – mae'n rhoi i'r panel ariannu'r manylder sy'n eu helpu i lunio barn ddeallus am anghenion a phrofiad eich ysgol/Awdurdod Lleol.

Unigolyn y Lluoedd Arfog sy'n cefnogi sylwadau

- Dylai hwn/hon fod yn aelod o'r **Gymuned Lluoedd Arfog** y mae eich ysgol/Awdurdod Lleol mewn cysylltiad amlaf ag ef/hi
- Gallant ddarparu **cyd-destun ar y gymuned o Filwyr** yn eich lleoliad, gan gynnwys math o unedau, hyfforddiant a lleoliadau disgwylidig, effeithiau ail-leoli a dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan deuluoedd Milwyr
- Os nad oes gennych unrhyw gyswilt â'ch cymuned Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, argymhellir eich bod yn cysylltu â'ch Arweinydd Ymgysylltu â'r Gymuned Lluoedd Arfog ar gyfer eich ardal awdurdod lleol (gweler [Atodiad 1](#)) neu'r [Swyddog Cyswilt Cyfamod y Lluoedd Arfog i drafod y cais](#)

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- Adeiladu **perthynas weithio agos** gydag unigolyn y Lluoedd Arfog sy'n darparu sylwadau cefnogol er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llawn yn yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn ceisio'i gyflawni. Mae eu cefnogaeth ar hyd eich gwaith gyda phlant Milwyr yn amhrisiadwy.
- Sylwch: Adran **ddewisol** yw hon a fydd yn cryfhau'ch cais ond nid yw'n hanfodol.

ADRAN 2 – MANYLION Y CAIS

Crynodeb o'r cais

- Dyma **ran bwysicaf** y cais – gydag oddeutu dim ond 100 o eiriau
- Cofiwch mai **crynodeb gweithredol** ydyw – canolbwyntiwch ar y canlyniadau allweddol.

Crynodeb o'r cais a'r costau

- Dyma gyfle da i ddarparu **crynodeb** clir **o'r eitemau** sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn a'r costau cysylltiedig, a fydd yn helpu'r panel i ddeall yn glir beth sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig.
- Rhowch eitemau'r cais yn **nhrefn blaenoriaeth**
- Gwahanwch elfennau'r cais a chostiwch nhw'n unigol i alluogi'r paneli i allu ystyried a dynodi **taliadau rhannol** yn hawdd
- Cofiwch y bydd cynigion yn cael eu craffu i sicrhau eu bod yn dangos **gwerth am arian**.

Beth a sut

Bydd eich cais yn gryfach os gallwch **dystio** rhai neu bob un o'r canlynol:

- Ymwybyddiaeth o'r **heriau** posibl y mae **plant Milwyr yn eu hwynebu** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol, ynghyd â sut i'w cefnogi - cofiwch fod pob plentyn Milwyr yn unigryw a'u profiadau'n wahanol
- I gael manylion o'r heriau y gallai plant Milwyr eu hwynebu, gweler www.sscecymru.co.uk
- Dangos **dealltwriaeth gref** o'r heriau a wynebier gan blant Milwyr mewn addysg, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effaith **symudedd** a **lleoli** – gan ddarparu **enghreifftiau** penodol lle bo'n briodol
- **Osgoi tybiaethau** am anghenion plant Milwyr – canolbwyntiwch ar eich profiad o'r plant a'r teuluoedd a gefnogwch
- Tynnu oddi ar **brofiad/enghreifftiau o arfer llwyddiannus** yn eich ysgol(ion) ac ysgolion mewn ardaloedd eraill
- Esbonio sut ydych wedi **cael safbwyntiau'ch** plant a theuluoedd Milwyr.

Gweithio gyda

- Anogir yn gryf geisiadau ar y cyd gan grwpiau o ysgolion - cyfeirir atynt fel '**Ceisiadau clwstwr**'
- Mae ceisiadau clwstwr yn dangos ac yn cefnogi **arfer da, gwybodaeth ar y cyd a gwerth am arian**
- **Rhoi manylion unrhyw gydweithredu** gydag ysgolion eraill yn eich ardal gyda'r nod o gefnogi'ch plant milwyr
- Rhestru unrhyw **sefydliad** y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol eisoes yn gweithio gyda nhw, neu'n bwriadu gweithio gyda nhw, er mwyn deall anghenion plant Milwyr a dynodi'r ffordd orau o'u cefnogi. Gallai'r sefydliadau gynnwys;
 - Gwasanaeth Iles y Lluoedd Arfog Lleol
 - Elusennau'r Lluoedd Arfog (Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges, Ffederasiwn Teuluoedd yr RAF, Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin, SSAFA, y Lleng Brydeinig Frenhinol)
 - Fforwm Lluoedd Arfog yr awdurdod lleol
 - Cymdeithasau rhieni'r Weinyddiaeth Amddiffyn

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- Darparwyr addysg
- SSCE Cymru.

ADRAN 3 – LLWYDDIANT A CHYNALIADWYEDD

Llwyddiant

- **Dylunio eich gwaith monitro** yn y lle cyntaf, yna adeiladu eich gweithgaredd o hwn
- Canolbwyntio ar **angen** penodol **wedi'i dystio** y gellir ei fesur
- Defnyddio cymysgedd o fesurau ond sicrhau bod mesurau **meintiol** yn cael eu cynnwys
- Cynnwys **targedau** Cyraeddadwy, Amser wedi'i Benu, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol (**CAMPUS**) sy'n gysylltiedig â chynnal a phrif-ffrydio'r gweithgaredd
- Cofiwch, rydych chi'n rhan o brosiect mwy o faint sy'n ceisio **deall yn well anghenion plant Milwyr** a beth sy'n gweithio i'w cefnogi – mae monitro'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n eich dilyn chi
- Gallai **enghreifftiau o lwyddiant** gynnwys;
 - Gwell canlyniadau academaidd
 - Ymgysylltiad y disgyblion
 - Cymryd sesiynau tiwtora
 - Canlyniadau lles
 - Adborth cadarnhaol gan lysgenhadon y disgyblion a chymuned Gweinyddiaeth Amddiffyn y Lluoedd Arfog.
- Gallai **enghreifftiau o sut i fesur** effaith y prosiect gynnwys;
 - Monitro dangosyddion perfformiad academaidd allweddol yn erbyn disgwyliadau Awdurdodau Lleol a Chymru (e.e. llythrennedd, rhifedd, presenoldeb, diwedd cyfnod allweddol)
 - Monitro cofnodion ymddygiad
 - Cymharu graddau targed/ canlyniadau lefelau
 - Arolygon plant milwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect.

Blaenoriaethau

- Dynodi **blaenoriaethau'r** prosiect – er mwyn i'r panel allu nodi'n hawdd ble i flaenoriaethu cyllid os ymddengys bod **cyllid rhannol** yn briodol ar gyfer y prosiect hwn.

Cynaliadwyedd (gwerth am arian a budd tymor hir)

- Esbonio beth fydd **etifeddiaeth** y prosiect yn ei adael
- Sicrhau bod **cynllun cynaliadwyedd realistig** yn cael ei ddisgrifio yn y cais – gan gynnwys ffynonellau cyllid parhaus (lle bo angen), adnoddau a chynllunio dilyniant
- Dynodi ffyrdd o **ymgorffori arfer** yn yr ysgol a'r Awdurdod Lleol
- Cynnwys esboniad o sut byddai **uwchsgilio staff** yn esgor ar fantais tymor hir
- Rhoi manylion unrhyw **lifoedd ariannu eraill** y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol wedi gwneud cais amdanynt, er mwyn parhau â'r gwaith.

Enghreifftiau o lwyddiant blaenorol

Ysgol fabanod ym Mhowys gyda 46 o blant Milwyr - £15,097

- Cyflogi Cynorthwydd Addysgu sy'n siarad Nepali am 25 awr yr wythnos.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Clwstwr o dair ysgol yn Sir Benfro gyda 33 o blant Milwyr – £11,400

- Hyfforddiant meddylfryd twf, 10 niwrnod
- Hyfforddiant gofalgar ar gyfer plant
- Un clwb ar ôl ysgol.

Ysgol gyfun yn Sir y Fflint gyda chwech o blant Milwyr - £7,500

- Aelod o staff i fynychu'r rhaglen hyfforddi grŵp anogaeth
- Cost hyfforddi i aelod o staff fynychu cwrs ar anawsterau ymlyniad
- Cynyddu nifer yr oriau i aelod o staff gynnal sesiynau anogaeth yn gyson
- Cyflwyno "sesiynau dal i fyny" ar gyfer llythrennedd a mathemateg i ddisgyblion o deuluoedd milwyr.

Clwstwr o chwe ysgol ym Mro Morgannwg gyda 235 o blant Milwyr - £47,360

- Cymorth Cynorthwywr Cymorth Dysgu Uwchradd (£20,680)
- Cymorth Cynorthwywr Cymorth Dysgu Cynradd
- Ymestyn y ddarpariaeth grŵp anogaeth.

Clwstwr o bedair ysgol gynradd yn Sir Fynwy gyda 10 o blant Milwyr – £7,724

- Ffioedd cwrs Cyngori Lefel 2 AIM
- Darpariaeth cyflenwi am ddeuddydd yr wythnos er mwyn i Gynorthwywr Cymorth Dysgu gefnogi plant Milwyr mewn pedair ysgol
- Ffioedd hyfforddi ELSA.

Ysgol Gynradd ym Mro Morgannwg gyda phedwar o blant Milwyr – £695

- Awr ELSA yr wythnos. Cynorthwywr Cymorth Dysgu gradd F 38 awr ychwanegol. Aelod o staff wedi'i enwi ar gyfer disgyblion. Arwain gweithgareddau anogaeth lles 'Cwtch' (gan gynnwys creu e-Blueys neu Intouch mail).

Ysgol gynradd yng Nghaerffili gyda phedwar o blant Milwyr – £2,977

- Cwrs Ymarferwr Thrive
- Cymorth iaith yn yr ysgol – cost cymorth 1:1 am ½ awr yr wythnos fesul plentyn.

Llinell amser

Ar gyfer rownd 2019/20:

- **30 Medi 2019** – dyddiad cau'r cais
- Hydref 2019 –panel yn ymgynnull
- Diwedd Hydref 2019 – bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais
- 14 Tachwedd – ysgolion/awdurdod lleol i ddychwelyd ffurflen manylion banc wedi'i llenwi
- Diwedd Rhagfyr 2019 – bydd taliadau'n cael eu gwneud
- Rhagfyr 2020 – bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gofyn i gwblhau archwiliad.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Manylion cyswllt

Dylid anfon ymholiadau pellach a ffurflenni cais gorffenedig at ssce@wlga.gov.uk.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog – Grantiau Lleol

Pwrpas y gronfa

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl fod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

Mae Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cefnogi'r addewid hwn trwy ddarparu **grantiau lleol (dan £20,000)** i alluogi prosiectau ar draws y DU i naill ai:

- Helpu integreiddio'r Lluoedd Arfog a chymunedau sifilaidd ar draws y DU, **ac/neu**
- Cyflwyno gwasanaethau lleol gwerthfawr i Gymuned y Lluoedd Arfog.

Dyma'r prif feini prawf ar gyfer asesu Grantiau Lleol:

- Pa mor dda mae'r prosiect yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth a sut mae'n bodloni'r gofynion penodol hyn
- Tystiolaeth o'r angen am y prosiect
- Ymgysylltu, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu
- Pa mor dda mae'r prosiect yn debygol o gael ei gyflwyno
- I ba raddau y mae'r prosiect yn cynrychioli gwerth am arian
- I ba raddau y mae hyder y bydd y prosiect yn cael effaith barhaol, yn cyflwyno newidiadau a fydd yn para y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.

Pwy sy'n gymwys

- Elusennau cofrestredig (gan gynnwys cwmnïau buddiannau cymunedol)
- **Ysgolion**
- Awdurdodau lleol
- Sefydliadau statudol
- Unedau Lluoedd Arfog gyda UIN.

Nid cronfa gyffredinol i sefydliadau gefnogi eu gweithgareddau craidd dim ond trwy ychwanegu aelodau o'r gymuned Lluoedd Arfog at eu grŵp buddiolwyr er mwyn gwneud cais am gyllid mo hon. Disgwylir i ymgeiswyr feddu ar brofiad a hanes o weithio gyda'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â gwir ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu eu cymuned leol.

Dolenni

www.covenantfund.org.uk

<https://www.covenantfund.org.uk/local-grants-and-digital-development-programme/>

Cyngor (yn ôl adran)

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Cyffredinol

- Darllenwch y canllawiau'n ofalus **cyn** ac **ar ôl** ysgrifennu'ch cais er mwyn sicrhau'ch bod chi'n canolbwyntio ar gynnwys perthnasol
- Ystyriwch yr **angen lleol, awgrymwch ateb, ymgynghorwch â'r bartneriaeth gyfamod lleol, cynlluniwch y gweithgaredd, cyflwynwch y cais gorffenedig**
- Gweler gwefan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog am [astudiaethau achos](#) a gwefan Cyfamod Cymru am [enghreifftiau lleol](#)
- Llenwch y ffurflen gais oddi ar lein a chopiwch eich atebion i'r cais ar-lein pan fyddwch yn barod i gyflwyno
- Byddwch yn ymwybodol o'r **terfyn geiriau** ar gyfer pob rhan
- **Osgowch fusnes yn ôl yr arfer** a dangoswch arloesedd/beth yw pwynt gwerthu unigryw'r cais.

Manylion y cais (cwestiynau 1-5c)

- Sicrhewch fod y syniadau'n cyfateb i'r **meini prawf** ar gyfer y grant
- Dangoswch wir **ymroddiad** gan yr ysgol i **ymgysylltu â'r gymuned Lluoedd Arfog**.
- Os oes gennych **gyswllt lleol** â'r Lluoedd Arfog, rhowch fanylion o ran sut mae'n edrych
- Rhowch wybod i ni sut bydd y prosiect yn cyfrannu at **ymrwymiad cyfamod y Lluoedd Arfog**
- Os oes gennych **blant Milwyr** yn eich ysgol, nodwch hyn fan hyn.

Tystiolaeth o'r angen am y prosiect hwn a phwy yr ymgynghorwyd â nhw (cwestiynau 5d-5e)

- Tystiolaeth eich bod wedi siarad gyda phob un o'r **bobl/rhanddeiliaid** perthnasol - er mwyn dangos **gweithio cydweithredol** ac osgoi dyblygu. Mae hyn yn dangos hefyd bod gennych **ddealltwriaeth** o'r hyn sydd wir ei angen yn yr **ardal leol**.
- Ymhlith yr enghreifftiau o bobl y **gellid** ymgynghori â nhw mae;
 - Y Lluoedd Arfog
 - [Cefnogi Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru](#)
 - [Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog \(AFLOs\) Rhanbarthol](#)
 - Y Lleng Brydeinig Frenhinol
 - Elusennau'r Lluoedd Arfog
 - Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog
 - Gwasanaeth Lles y Fyddin
 - Porth y Cyn-filwyr.

Blaenoriaeth a gweithgaredd (cwestiynau 6a-6b)

- Rhaid i brosiectau helpu **integreiddio cymunedau Lluoedd Arfog a chymunedau sifil** ar draws y DU, **ac/neu gyflwyno gwasanaethau lleol gwerthfawr** i'r Gymuned Lluoedd Arfog.
- Bod yn **greedigol/arloesol** gyda syniadau am brosiectau
- Bod yn **glir** am yr hyn y mae'r **prosiect yn bwriadu** ei gyflawni.
- Rhoi **enghreifftiau** o sut ydych wedi **dynodi'r angen**
- Bod yn sicr bod y prosiect yn **hyrwyddo agweddau cadarnhaol y Lluoedd Arfog**.

Integreiddio Cymunedau / Cyflwyno Gwasanaethau Lleol (cwestiwn 7a)

- Gweler gwefan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog ar gyfer [astudiaethau achos](#).

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Mesur llwyddiant a chynaliadwyedd (cwestiwn 7b-7c)

- Mesur llwyddiant yn erbyn **canlyniadau bwriadedig** y prosiect
- Defnyddio data **ansoddol** a **meintiol** os yn bosibl.

Gweithio mewn partneriaeth (cwestiwn 8)

- Rhoi manylion **cydweithredu** gyda sefydliadau eraill yn eich ardal sydd wedi'u hanelu at gefnogi'ch cymuned Gwasanaeth.

Amserlen a lleoliad y prosiect (cwestiynau 11a-11c)

- Dylid **dechrau** prosiect cyn pen 12 mis o dderbyn y cynnig grant.

Gwybodaeth ariannol (cwestiynau 12a-13b)

- **Torri'r gost i lawr** cymaint â phosibl i ddangos ei bod wedi'i chyfrifo'n gywir ac nad rhif cryno mohono.
- Nid oes gofyniad am unrhyw fath o **gyllid 'cyfatebol'**, nac unrhyw incwm arall ond os ydy'r prosiect yn costio mwy na'r hyn rydych yn ymgeisio amdano, mae'n bwysig rhoi manylion ynghylch sut byddwch yn gwneud y gwahaniaeth a pha mor sicr ydych chi y bydd yr incwm cynlluniedig hwn ar gael.

Partneriaeth Cyfamod Lleol (cwestiynau 14a-14e)

- Rhaid i bob ymgeisydd weithio'n agos gyda'u **Partneriaethau Cyfamod Lleol** i sicrhau bod eu prosiect wedi'i **gysylltu'n lleol, yn ymateb i angen cydnabyddedig** ac **nad yw'n dyblygu darpariaeth arall**
- Sicrhewch eich bod yn cysylltu â'ch Partneriaeth Cyfamod Lleol (a gydlynir fel rheol gan eich Awdurdod Lleol) o leiaf **ddwy wythnos glir** cyn y dyddiad cau ar gyfer y cais rydych chi'n anelu amdano oherwydd mae'n cymryd amser i gasglu ynghyd farnau'r bartneriaeth. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch cais, ar sail unrhyw **awgrymiadau/argymhellion gan y bartneriaeth**.
- Gweithiwch gyda'ch [Swyddog Cyswllt y Cyfamod Lluedd Arfog](#) rhanbarthol i **datblygu'r syniad cychwynnol** gan gynnllunio'r gwaith o gyflawni ac adnoddau a chostau. Gweler isod am fanylion cyswllt.

Engbreiffiau o lwyddiant blaenorol yng Nghymru

Ysgol Feithrin a Babanod Mount Street (Powys) - £10,600

- Ystafell ddosbarth Awyr Agored Cymunedol ar dir yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymroi i ddysgu yn yr awyr agored ac mae arian sylweddol wedi'i wario ar ddatblygu'r tir a hyfforddi staff i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel i ddisgyblion.

Ysgol Gynradd St Giles (Wrecsam) - £11,700

- Rhedeg rhaglen Gwobr y Tywysog William. Dan arweiniad cyn staff y lluedd arfog, bydd y rhaglen yn helpu magu hyder a hunan-barch y disgyblion, gan gynnwys plant Milwyr, yn datblygu eu sgiliau cydweithredu, cyfathrebu, datrys problemau a gweithio fel tîm, ac yn anad dim, eu gwynwch i ymdopi yn wyneb heriau.

Ysgol Maes Garmon (Sir y Fflint) - £19,100

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- Sefydlu rhaglen blwyddyn o hyd o weithgareddau, sy'n ymroi i gyflawni egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, ac wrth wneud hynny, bydd yn ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ethos yr ysgol, ei disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith gydag athrawon, disgyblion a'r gymuned ehangach.

Crickhowell High School (Powys) - £20,000

- Rhoi Hwb i Les plant milwyr – bydd y prosiect yn darparu cymorth arbenigol i blant Milwyr a'u teuluoedd i wella'u lles a goresgyn y pwysau unigryw a wynebant.

Llinell amser

Derbynnir ceisiadau **drwy'r flwyddyn**, gyda'r panel(i) yn adolygu'r ceisiadau bedair gwaith y flwyddyn.

- Cyflwynir ceisiadau
- Panel adolygu rhanbarthol Cymru gyfan yn cyfarfod i adolygu ydy'r prosiect yn gweddu i'r angen lleol ac yn darparu argymhellion i fwrdd Ymddiriedolaeth y Cyfamod
- Gwneir penderfyniadau gan fwrdd Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog
- Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am ganlyniad eu cais
- Cyn pen pedair wythnos – bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn y cynnig grant
- Gwneir y taliad yn llawn
- Cyn pen 12 mis – mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y cais wedi dechrau.

Dyddiadau cau'r ceisiadau (2019)	Rhoddir gwybod am y canlyniad erbyn...
09:00 9 Medi	Diwedd Tachwedd 2019
09:00 2 Rhagfyr	Diwedd Chwefror 2020

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag enquiries@covenantfund.org.uk

I gael cefnogaeth cydlynwyr y panel rhanbarthol yng Nghymru, cysylltwch ag:

SO2 Andrew Williams: andrew.williams935@mod.gov.uk, 01874 613202

SO3 Claire Phillips: claire.phillips458@mod.gov.uk, 01874 613131

Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog (AFLOs) Rhanbarthol:

- Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrexham - Stephen.Townley@wrexham.gov.uk, Janette.Williams@wrexham.gov.uk
- Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg - Jeff.Maddison@rctcbc.gov.uk
- Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe - g.c.halfpenny@npt.gov.uk (Grace)
- Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro - JCWatt@carmarthenshire.gov.uk (Jane Watt)
- Blaenau-Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen - rawlil@caerphilly.gov.uk (Lisa Rawlings).

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog

Pwrpas y gronfa

Elusen rhoi grantiau yw Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog sy'n rhoi cefnogaeth i blant milwyr presennol a phlant cyn-filwyr at ddibenion addysg.

Nodau:

- Helpu ariannu addysg plant milwyr (gwrywaidd a benywaidd) sydd dan anfantais oherwydd gwasanaeth eu rhieni
- Sicrhau nad yw plant yn colli allan oherwydd gwasanaeth eu rhieni, ni waeth beth yw eu hoedran, gallu, safle eu rhieni neu wasanaeth blaenorol neu gyfredol
- Rhoi cyllid i ysgolion am adnoddau ychwanegol i gefnogi addysg y plant lle mae eu rhieni'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog.

Mae dau fath o gyllid ar gael i ysgolion:

Grantiau ar y cyd – fe'u dyfernir i ddarparu'r addysg (fel rheol ysgol neu awdurdod addysg) i helpu darparu cymorth addysgol i blant milwyr. Mae'r fath gefnogaeth yn debygol o gynnwys ymyriad addysgol penodol o ganlyniad i'r gwell canlyniadau addysgol y gall plant milwyr eu dangos.

Grantiau cydweithredol – fe'u dyfernir i ysgolion y wladwriaeth i gefnogi plentyn unigol mewn achosion lle bu plentyn dan anfantais gan wasanaeth eu rhieni ac sydd angen cymorth ychwanegol e.e. wrth ailddechrau proses Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn sgil lleoli. Bydd angen i'r rhieni lenwi cais ar y cyd â'r ysgol a byddai'n destun prawf modd.

Pwy sy'n gymwys

Cyllid ar y cyd

Rhaid i'r ymgeiswyr fodloni **pob un o'r tri** maen prawf canlynol:

1. Elusen gofrestredig neu sefydliad dielw
2. Bod y cynnig yn bodloni Nodau'r Ymddiriedolaeth
3. Dangos cyswllt mesuradwy uniongyrchol rhwng y gweithgareddau arfaethedig a gwell canlyniad addysgol y plant milwyr rydych chi'n bwriadu eu helpu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai ysgolion gyda nifer fach o ddisgyblion o deuluoedd milwyr fod mewn angen cymorth gymaint â'r rhai mewn niferoedd mawrion.

Cyllid cydweithredol

Ysgolion a rhieni sy'n nodi angen ar gyfer **plentyn unigol** sydd wedi bod **dan anfantais** gan wasanaeth eu rhieni.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Dolen gyswilt

<https://armedforceseducation.org/collective-grants/>

Cyngor ar grantiau ar y Cyd (yn ôl adran)

Cyffredinol

- Darllenwch y **canllawiau** yn llawn **cyn ac ar ôl** ysgrifennu'ch cais i sicrhau dealltwriaeth o'r derminoleg yn y cais
- Ystyriwch **ystyriaethau allweddol** y pwyllgorau:
 - Yr **ANGEN** am y gweithgareddau/prosiect
 - Beth fydd **EFFAITH** y gweithgareddau arfaethedig?
 - **CAPASITI'R SEFYDLIAD**
 - Ydy'r grant y gofynnwyd amdano'n cynrychioli **GWERTH am arian**?
 - **LLYWODRAETHIANT**
 - **CYNALIADWYEDD** a chreu **ETIFEDD**.
- Gellir e-bostio **dogfennau cefnogol** at yr Ymddiriedolaeth
- Anogir yn gryf **geisiadau clwstwr** gan grwpiau o ysgolion
- Cofiwch y dylai cyllid i blant Milwyr fod **yn ogystal â'r hyn y mae eu cyfoedion sifilaidd yn elwa arno** ac nid yn ei le. Osgowch gyflwyno cais i ariannu gwaith y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn ei ddarparu.

2. EICH CAIS AM GRANT

Gwybodaeth am gyllid (cwestiynau 2.1-2.2)

- Dyma gyfle da i ddarparu **crynodeb** clir **o'r costau** a fydd yn helpu'r paneli i ddeall yn glir beth sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig
- Gwahanu unrhyw rannau o'r cais a'u costio'n unigol er mwyn galluogi'r paneli i ddynodi **taliadau rhannol** yn hawdd

Tystiolaeth o'r angen am y cyllid hwn a sut yr eir i'r afael ag ef (cwestiynau 2.3-2.5)

- Esboniad o sut ydych wedi **dynodi'r angen**
- Esbonio sut ydych chi wedi **cael safbwyntiau** plant a theuluoedd Milwyr.

Llwyddiant grant arall (cwestiwn 2.6)

- Mae'n bwysig bod y wybodaeth a ddarperir yn **dryloyw ac yn gywir** – mae'n rhoi i'r ymddiriedolwyr y manylder sy'n eu helpu i lunio barn ddeallus am anghenion a phrofiad eich ysgol/Awdurdod Lleol.

Dewisiadau eraill (cwestiwn 2.7)

- Amlinellu **blaenoriaethau a dewisiadau eraill** os mai dim ond cyllid rhannol sydd ar gael.

3. CANLYNIADAU

Llwyddiant ac effaith (cwestiynau 3.1-3.2)

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- **Cynlluniwch eich gwaith monitro** yn y lle cyntaf, yna adeiladwch eich gweithgaredd o hwn
- Canolbwyntiwch ar **angen** penodol **wedi'i dystio** y gellir ei fesur
- Defnyddiwch gymysgedd o fesurau ond sicrhewch fod mesurau **meintiol** yn un ohonynt
- Cofiwch gynnwys **targedau** Cyraeddadwy, Amser wedi'i Bennu, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol (**CAMPUS**) sy'n gysylltiedig â chynnal a phrif-ffrydio'r gweithgaredd
- Cofiwch, rydych chi'n rhan o brosiect mwy o faint sy'n ceisio **deall yn well anghenion plant Milwyr** a beth sy'n gweithio i'w cefnogi – mae monitro'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n eich dilyn chi
- Gallai **enghreifftiau o lwyddiant** gynnwys;
 - Gwell canlyniadau academaidd
 - Ymgysylltiad y disgyblion
 - Nifer sy'n derbyn sesiynau tiwtora
 - Canlyniadau lles
 - Adborth cadarnhaol gan lysgenhadon y disgyblion a chymuned y Lluoedd Arfog.
- Gallai **enghreifftiau o sut i fesur** effaith y prosiect gynnwys;
 - Monitro dangosyddion perfformiad academaidd allweddol yn erbyn disgwyliadau Awdurdodau Lleol a Chymru (e.e. llythrennedd, rhifedd, presenoldeb, diwedd cyfnod allweddol)
 - Monitro cofnodion ymddygiad
 - Cymharu graddau targed/ canlyniadau lefelau
 - Arolygon plant milwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect.

4. CAPASITI'R SEFYDLIAD

Llwyddiant blaenorol (cwestiynau 4.1-4.2)

- Ystyriwyd anghenion **ysgolion lleol eraill** a'r posibilrwydd o gais clwstwr.

Manylion cyflawni (cwestiynau 4.3-4.4)

- **Esbonio** sut bydd **amcanion** y prosiect yn cael eu bodloni
- Rhoi manylion ar sut bydd y prosiect yn cael ei **reoli**
- Anogir yn gryf geisiadau ar y cyd gan grwpiau o ysgolion - cyfeirir atynt fel '**Ceisiadau clwstwr**'
- Mae ceisiadau clwstwr yn dangos ac yn cefnogi **arfer da, gwybodaeth ar y cyd a gwerth am arian**
- **Rhowch fanylion unrhyw gydweithredu** gydag ysgolion eraill yn eich ardal gyda'r nod o gefnogi'ch plant milwyr
- Rhestrwch unrhyw **sefydliad** y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol eisoes yn gweithio gyda nhw, neu'n bwriadu gweithio gyda nhw, er mwyn deall anghenion plant Milwyr a dynodi'r ffordd orau o'u cefnogi.

6. BUDDIOLWYR (cwestiynau 6.1-6.4)

- I gael manylion yr heriau y gallai plant Milwyr eu hwynebu, gweler www.sseccymru.co.uk
- Byddwch yn ymwybodol o'r **heriau** posibl **y mae plant Milwyr yn eu hwynebu** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol, ynghyd â sut i'w cefnogi – byddwch yn wylriadwus o gyffredinoli, cofiwch fod pob plentyn Milwr yn unigryw a bod eu profiadau'n wahanol
- Dangoswch **ddealltwriaeth gref** o'r heriau a wynebir gan blant Milwyr mewn addysg, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effaith **symudedd** a **lleoli** – gan ddarparu **enghreifftiau** penodol lle bo'n briodol

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

- **Osgowch dybiaethau** am anghenion plant Milwyr – canolbwyntiwch ar eich profiad o’r plant a’r teuluoedd a gefnogwch
- Dyma gyfle pwysig i ddangos **canran y plant Milwyr** yn eich ysgol/Awdurdod Lleol.

7. MANYLION ARIANNOL

Cyllid o ffynonellau eraill (cwestiynau 7.1-7.3)

- Rhowch fanylion unrhyw **lifoedd ariannu eraill** y mae’r ysgol/Awdurdod lleol wedi gwneud cais amdanynt
- Esboniwch sut gallai **diffyg** mewn cyllid gael ei oresgyn.

Cynaliadwyedd (cwestiwn 7.4)

- Esboniwch beth fydd **etifeddiaeth** y prosiect yn ei adael
- Sicrhewch fod **cynllun cynaliadwyedd realistig** yn cael ei ddisgrifio yn y cais – gan gynnwys ffynonellau cyllid parhaus (lle bo angen), adnoddau a chynllunio dilyniant
- Nodwch ffyrdd o **ymgorffori arfer** yn yr ysgol a’r Awdurdod Lleol
- Cofiwch gynnwys esboniad o sut byddai **uwchsgilio staff** yn esgor ar fantais tymor hir.

Engheifftiau o lwyddiant blaenorol

Grantiau ar y cyd

<https://armedforceseducation.org/collective-grants/>

Prosiect Numbers Count mewn ysgol yn Wiltshire

Mae’r Ymddiriedolaeth yn ariannu dau ymarferwr ymyrryd sy’n:

- Arwain hyfforddiant i athrawon
- Cynnal sesiynau grŵp bach i ganolbwyntio ar ddod â sgiliau rhifedd plant Milwyr i fyny i’r safon ofynnol a chau unrhyw fylchau mewn dysgu.

Effaith: profwyd bod y prosiect hwn yn hynod lwyddiannus wrth gefnogi plant Milwyr ac yn eu helpu gyda’r parhad mewn addysg y mae arnynt eu hangen o gofio’u symudedd.

Pencampwyr Disgyblion o Deuluoedd Milwyr mewn ysgolion yng Ngogledd Swydd Efrog

Ariannodd yr Ymddiriedolaeth ddau Bencampwr Disgyblion o Deuluoedd Milwyr i ymgymryd â hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf Emosiynol a chwrs Hyfforddi’r Hyfforddwr, gyda’r nod o raeadru’r dysgu ar draws y sir.

Effaith: Mae’r Pencampwyr yn codi ymwybyddiaeth o anghenion plant Milwyr trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus staff a thrwy ddarparu cyswllt rhwng y Lluoedd Arfog a phartneriaid yr ysgolion. Mae’r Pencampwyr hefyd yn darparu ymyrraeth gynnar ac yn cyfeirio at wasanaethau eraill. Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf Emosiynol y Pencampwyr wedi arwain at gyflwyno Gweithdai Gorbryder i blant a rhieni milwyr. Mae manteision y rhain wedi bod yn arwyddocaol ac mae’r effaith tymor hir eisoes yn cael ei gweld.

Grantiau cydweithredol

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Bu plentyn milwr gyda materion ymddygiad dan anfantais oherwydd nid oedd ei deulu wedi aros yn ddigon hir unrhyw le i gael asesiad GIG. Dychwelon nhw'n gynnar o Gyprus at y diben hwn ac ymunodd y plentyn Milwr â'r flwyddyn derbyn lle'r oedd angen cymorth ychwanegol arno hyd nes i Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal gael ei ddyfarnu iddo. Bu modd i'r Ymddiriedolaeth helpu'r ysgol i ariannu oedolyn allweddol i gefnogi'r plentyn Milwr gan olygu ei fod yn pontio'n llwyddiannus i'r ysgol.

Llinell amser

Y prif ddyddiad cau am geisiadau ar gyfer **Grantiau ar y cyd** yw **15 Mai** ar gyfer penderfyniadau mis Mehefin. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn hapus i drafod ceisiadau ar hyd y flwyddyn (e.e. i glymu i mewn gyda cheisiadau i lifoedd ariannu eraill neu lle mae angen yn codi).

- Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth i **wirio cymhwyster** <https://armedforceseducation.org/collective-grants/>
- Cyn pen tri diwrnod gwaith – bydd yr Ymddiriedolaeth yn cysylltu â'r ymgeiswyr i drafod eu hymholiad ac i **anfon y ffurflen gais**, os ystyrir bod yr ymgeisydd yn briodol
- **Cyflwyno'r cais** i admin@armedforceseducation.org ac atodi unrhyw ddogfennau cefnogol
- Gwneir **penderfyniadau** gan yr Ymddiriedolwyr
- Cyn pen wyth wythnos – **bydd ymgeiswyr yn cael gwybod** am ganlyniad eu cais
- Cyn pen deufis o ddiwedd cyfnod y grant – cwblhau'r **adroddiad ar ôl y grant**.

Manylion cyswllt

Dylid anfon **ymholiadau** ac/neu **ffurflenni cais wedi'u llenwi** at admin@armedforceseducation.org.

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Llifoedd ariannu eraill

Grants4Schools

Gellir nodi manylion Grantiau eraill, sydd heb eu hanelu'n benodol at gefnogi'r gymuned Llwoedd Arfog trwy Grants4Schools.

<https://www.grants4schools.info/>

Mae gwefan Grants4Schools yn cynnwys:

- Newyddion ariannu
- Astudiaethau achos ariannu
- Cylchlythyr am ddim
- Offeryn chwilio am grant (£ am fynediad llawn)
- Map canfod grantiau (£)
- Canllaw cynhwysfawr i grantiau yn y DU (£)
- Canllaw poced ar ysgrifennu ceisiadau grantiau llwyddiannus (£)
- Manylion gweithdai ariannu (£)

Mynediad i Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru

Gall dysgwyr cymwys droi at y grant hwn o £125 i brynu gwisg ysgol, offer, cit chwaraeon a chit ar gyfer gweithgareddau.

<https://gov.wales/pupil-development-grant-access>

<https://gov.wales/free-school-meals-frequently-asked-questions>

Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cynllun Lles Plant

Mae hwn yn cynnig grantiau i deuluoedd a rhieni sengl cymwys tuag at gost eitemau hanfodol sy'n ofynnol gan eu plant. Dyfernir grantiau bach am eitemau fel dillad gaeaf, celfi ystafell wely a gwisg ysgol. Maen nhw hefyd yn talu am glybiau i blant fel Geidiau a Sgowtiaid yn ogystal â thripiâu ysgol hanfodol.

<http://www.rblws.org.uk/how-we-help/children-s-welfare-scheme>

Cronfa Cyfamod y Llwoedd Arfog – Tynnu Rhwystrau Teuluol

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Mae a wnelo'r rhaglen hon â chefnogi Teuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n wynebu heriau. Bydd grantiau mawr yn helpu i fynd i'r afael â heriau sylweddol; gan ddarparu cyllid am syniadau trawsnewidiol. Bydd grantiau canolig yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth wedi'i brofi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog a bydd yn cefnogi gwaith presennol. Ceir cyllideb gyffredinol o £7.5 miliwn.

Mae tri grŵp allweddol yr hoffai'r gronfa hon eu cefnogi:

- Pobl Ifanc o Deuluoedd y Lluoedd Arfog
- Teuluoedd a Gofalwyr Cyn-filwyr
- Teuluoedd Milwyr.

Bydd y rhaglen hon yn dyfarnu grantiau i Elusennau'r Lluoedd Arfog, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol neu Unedau'r Lluoedd Arfog sy'n gweithio gyda Theuluoedd y Lluoedd Arfog. Felly, byddai angen i ysgolion/awdurdodau lleol gysylltu ag un o'r sefydliadau hyn i fod yn gymwys am y grant hwn.

<https://www.covenantfund.org.uk/removing-barriers-to-family-life/>

Ymddiriedolaeth Cronfa Les Swyddogion Llynges (RNBT)

Mae'r RNBT yn helpu, mewn achosion o angen, swyddogion llynges a Môr-Filwyr Brenhinol (cyn a blaenorol) gan gynnwys milwyr wrth gefn; a wŷr fel Buddiolwyr Sylfaenol. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn helpu euartneriaid, plant ac eraill yn gysylltiedig â nhw. Adnabyddir buddiolwyr fel cyfangorff yn Deulu RNBT.

Prif fusnes yr RNBT yw sicrhau grantiau – cymorth ariannol – i helpu aelodau o'r Teulu RNBT sydd mewn trafferthion. Mae hyn yn cynnwys grantiau wedi'u talu yn uniongyrchol i deuluoedd yn ogystal â grantiau i sefydliadau ac elusennau sydd yn cefnogi aelodau o Deulu RNBT yn uniongyrchol.

Un o'r [Categories of Need](#) wedi'u rhestru ar wefan RNBT yw addysg.

<http://www.rnbt.org.uk/>

Cronfa Les Llu Awyr Brenhinol (RAFBF)

Dyma elusen lles arweiniol RAF sydd gyda thraddodiad o edrych ar ôl ei phobl. Cynigir cymorth i holl aelodau presennol a chyn aelodau'r RAF yn ogystal â'uartneriaid a'u plant.

Mae rhaglen Grant Allanol RAFBF yn cefnogi costau gweithgareddau a gwasanaethau sydd yn cyflawni o leiaf un o'u naw Canlyniad Lles.

1. Modd o gynnydd ariannol
2. Gwella symudedd
3. Gwella'r gallu i fyw adref yn ddiogel am gyfnod hirach
4. Gwella amgylchedd y cartref
5. Gwella disgwyliadau cyflogaeth
6. Gwella ymrwymiad mewn gweithgareddau galwedigaethol
7. Gwella perthnasau gydag eraill
8. Lleihau arwahanrwydd cymdeithasol neu deimlo'n unig

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

9. Gwella lles meddyliol a chorfforol

Mae'r Canlyniadau Lles hyn yn dangos y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r effaith y mae'n nhw'n gobeithio'i gael **er mwyn galluogi pawb o fewn y teulu RAG i fyw gydag urddas, diben a thawelwch meddwl.**

<https://www.rafbf.org/>

Cronfa Les y Fyddin (ABF) Elusen y Milwyr

Mae elusen genedlaethol y Fyddin Brydeinig yn darparu oes o gefnogaeth i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd agos pan fyddant mewn angen.

Grantiau i Elusennau a Sefydliadau – mae rhaglen grantiau sefydledig a sylweddol o gymorth i elusennau a sefydliadau sydd yn darparu cymorth hir-oes i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd agos. Fel arfer bydd ABF yn ariannu hyd at 100 o elusennau mewn unrhyw flwyddyn a fydd yn darparu cefnogaeth ar ran y Fyddin ac Elusen Milwyr AFB.

<https://soldierscharity.org/>


Dyddiad creu: Gorffennaf 2019

Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.

Atodiad 1

CETF Matrix

- 17. **PONTYPRIDD**
C Coy 3 R WELSH
- 18. **QUEENSFERRY - Harry Weir TAC**
388 Tpt Sqn 157 Welsh Tpt Regt
- 19. **SWANSEA** - Almain Rd - Morfa
B Coy 3 R WELSH
A Sqn 203 Fd Hosp
- 19. **SWANSEA** - UC HC - Glamorgan St
Swansea Det Wales UOTC
108 GS Fd Sqn R Mon RE
- 19. **SWANSEA** - The Grange - Blackpill
223 Tpt Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
- 20. **WREXHAM** - Hightown
Outreach Team Wales
Pln Det 3 R WELSH
- 21. **BRAWDY**
14SR
- 22. **BRECON**
HQ 100 Inf Bde & HQ Wales
IBS
- 23. **ANGLESEY**
RAF Valley
- 1. **ABERTULLERY** - Cwm Cottage
HQ 211 Bty 104 Regt RA
D Tpt 211 Bty 104 Regt RA
- 2. **ABERYSTWYTH**
PIB Coy R WELSH
Aberystwyth Det Wales UOTC
- 3. **BARRY**
HMS Cambria
- 4. **BRIDGEND** - Llanerch Cress
To 580 Tpt Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
LAD REME 157 (Welsh) Tpt Regt
180 Fd Coy 105 Bn REME
- 5. **CAERNARFON**
PI D Coy 3 R WELSH
Bangor Det
- 6. **CARDIFF** - Llandaff North - Gabalfa
RHQ/HQ Sqn 203 Fd Hosp
- 6. **CARDIFF** - Meriky
RHQ and HQ Coy 3 R WELSH
RHQ 157 (Welsh) Tpt Regt
248 HQ Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
580 Tpt Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
RHQ Wales UOTC and Cardiff Det
RHQ ODG / RHQ R WELSH / RHQ WG
- 6. **CARDIFF** - Ty Llhwellyn
C Tpt 211 Bty 104 Regt RA
53 Sig Sqn 89 Sig Regt
814 Sqn R Aux AF
- 7. **CARMARTHEN**
224 Tpt Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
Det 180 Fd Coy 105 Bn REME
- 8. **COLWYN BAY**
D Coy 3 R WELSH
C Sqn 203 Fd Hosp
- 9. **CRICKHOWELL** - Cwrt-y-Gollen
B Sqn 203 Fd Hosp
- 10. **CWMBRAN** - Chapman VC House
100 Fd Sqn R Mon RE
LAD REME R Mon RE
- 11. **HAVERRORDWEST** - DALTON VC
Det 224 Tpt Sqn 157 (Welsh) Tpt Regt
C Sqn 203 Fd Hosp
- 12. **LLANDUDNO**
C Sqn 203 Fd Hosp
- 13. **MERTHYR TYDFIL**
Pln Det 3 R WELSH
- 14. **MONMOUTH** - The Castle
RHQ R Mon RE
- 15. **NEATH**
Pln Det 3 R WELSH
- 16. **NEWPORT** - Reglan Barracks
RHQ 104 Regt RA
217 Bty BA
3 R WELSH Band



Ser	Unitary Authority	CETF	Regional Covenant Partnership
1	Monmouthshire	R MON RE	Gwent / Aneurin Bevan
2	Newport	104 RA	
3	Torfaen	104 RA	
4	Blaenau Gwent	104 RA	
5	Caerphilly	203 (W) Fd Hosp	
6	Cardiff	HMS Cambria 3 R Welsh	Cardiff and the Vale
7	Vale of Glamorgan	HMS Cambria MOD St Athan	
8	Merthyr Tydfil	3 R Welsh	Cwm Taff
9	Rhondda Cynon Taff	3 R Welsh	
10	Bridgend	101 Bn REME	Western Bay
11	Neath Port Talbot	157 RLC	Abertawe Bro Morgannwg
12	Swansea	157 RLC	
13	Cardiff	157 RLC	West Wales
14	Pembrokeshire	14 Signal Regt	Hywel Dda
15	Ceredigion	3 R Welsh	Powys
16	Powys	IBS	
17	Gwynedd	RAF Valley	North Wales
18	Iale of Anglesey	JSATI	Betsi Cadwaladr
19	Conwy	RAF Valley	
20	Denbighshire	3 R Welsh	
21	Ffymshire	157 RLC	
22	Wrexham	157 RLC 3 R Welsh	

REF: 01/1664

Dyddiad creu: Gorffennaf 2019
Cyfranwyr: DCYP, 160 Infantry Brigade and HQ Wales, Armed Forces Education Trust, Welsh Government Education Team, Army Families Federation (AFF), Local Authority Regional Armed Forces Covenant Liaison Officers, Newport City Council, Brecon High School, Llantwit Major High School, Prendergast Primary School, Mount Street Infants School.